Cynhaiwyd cyfarfod or Cyngor ar 25ain o Dachwedd am 7.30 or gloch yn y festri.

Presenol oedd Wyn Jones, Generys Roberts, Helen Jones, Eryl Evans (cadeirydd) Llyr Jones, Gethin Jones, cynghorydd Peter Lewis a Carol Humphreys(clerc).
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe ‘u harwyddwyd fel rhai cywir.
Datgan Diddordeb - Neb.
Gohebiaeth
**Eirian Jones -** cafwyd llythyr yn nodi bod Eirian wedi cael ei phenodi fel Swyddog Ariannu i gefnogi cymunedau Conwy Lotteri Genedlaethol.
**Ambiwlas Awyr Cymru –** llythyr yn gofyn am gyfraniad. Pasiwyd i roi hanner yr elw noson tan gwyllt ir elusen. Sef £135.00.
**Lelo Sgip-** anfoneb am sgip mis Tachwedd £312.00 pasiwyd iw dalu.
**Darren Miller –** llythyr yn nodi y bydd ar gael i fynnych cyfarfod os oes angen – pasiwyd iw adael am nawr.
**Yn y banc** – nodwyd.
**Cadwyn Clwyd -** Taliad diwethaf am ddaenio y cae peldroed gan grant Brenig. £484.00.
**Cadwyn Clwyd –** Taliad wedi ei wneud i gael ffensio y cae peldroed gan grant Brenig. £5300.10
**Tan Gwyllt –** Cafwyd noson dda iawn yn ein tan gwyllt eleni eto casglwyd £270.00 i ddwy achos sef Ambiwlans Awyr Cymru a Ysbyty Stoke.
**Llygod Mawr** mae’r mater yn cael ei drin nawr gyda Cartrefi Conwy ond ein bod yn cadw golwg or sefyllfa.
**Precept 21/22 -**penodwyd y swm o £5300.00 am flwyddyn sydd i ddod, gan gymeryd i sylw efallai bydd etholiad mis Mai.
**Capel Maes yr Odyn** – Talu am heirio y Festri tri cyfarfod = £30.00. pasiwyd iw dalu.
**Coeden Nadolig -**pasiwyd i gael coeden nadolig ir pentref - Llyr am gael coeden.
**Ffensio y cae Peldroed** – pasiwyd i gysylltu efo Hywel Jones i ofyn beth yw y gost ychwanegol ir pris a gafwyd yn ol ddechrau flwyddyn gan bod costau deunyddiau wedi codi cymaint.
**Cyngor B Sirol Conwy –** Anfoneb am arainnu y cynllun chwarae yn Ngherrig y Drudion yn ystod yr haf 2021. £40.00 pasiwyd iw dalu.
**Arian Byw** – anfoneb gan Teleri am wneud y Cyflog ac archwilio cyfrifon 20/21.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 .